

## **PRIFYSGOL DE CYMRU**

### **Adroddiad Monitro ar y Safonau Iaith Gymraeg 2018**

**Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng  
1 Ebrill 2018 hyd at 31 Gorffennaf 2018**

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6)). Bwriad y Safonau yw:

- darparu eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau ym ymwneud â'r Gymraeg
- darparu eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau Cymraeg a gwella'u hansawdd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau yng Nghymru drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ers 1 Ebrill 2018 mae gan Brifysgol De Cymru ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel a nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a ddosbarthwyd ar 29 Medi 2017. Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Brifysgol gynhyrchu adroddiad monitro sy'n cyfateb i'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn trafod sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r safonau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o fewn 6 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Gorffennaf 2018.

Rhaid cynnwys y materion canlynol yn yr adroddiad:

- Y modd y gwnaeth y brifysgol gydymffurfio â'r safonau yr oeddem dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi, gweithredu);
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi, gweithredol);
- Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw;
- Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gysiau hyfforddi a ddarparwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, a'r ganran;
- Nifer y staff sy'n gwisgo llinyn gwddf neu fathodyn 'Iaith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;

- Nifer y swyddi gwag a newydd a hysbysebwyd gyda sgiliau Cymraeg.

Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan Prifysgol De Cymru ar 31 Ionawr 2019.

## 2. CYRHAEDDIADAU

Mynychodd **105** aelod o staff gyrsiau hyfforddiant yn ystod 2017/18 sy'n gynydd o **184%** ers 2016/17. Mae'r Brifysgol wedi cynnig cyrsiau hyfforddi am ddim yn hanesyddol i bob aelod o staff PDC.

Mae rheolwyr wedi mynd ati'n rhagweithiol i uwch-sgilio staff sydd â lefel o Gymraeg ysgrifenedig neu lafar ac mae'r Uned Gymraeg wedi gweithio gyda rheolwyr ar draws y Brifysgol i ddarparu hyfforddiant sylfaenol i staff sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd wedi datblygu strwythur newydd i gofnodi sgiliau staff ar eu cofnod personol i sicrhau bod y dystiolaeth a'r wybodaeth mor gyfredol ac mor fanwl â phosib. Gwneir hyn drwy system Adnoddau Dynol ar-lein y Brifysgol. Prifysgol De Cymru oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i ddarparu rhyngwyneb iTrent yn gwbl ddwyieithog i'w holl staff.

Lansiwyd digwyddiad ar gampws Trefforest, a gynhelir bob pythefnos, er mwyn cefnogi staff sy'n dymuno datblygu ac ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destun anffurfiol. Cynhelir digwyddiad tebyg mewn cydweithrediad â Menter Iaith Casnewydd ar gampws Dinas Casnewydd ac fe'i croesewir gan staff sy'n dymuno datblygu eu hyder a'u sgiliau llafar Cymraeg, ond sy'n methu â theithio i Drefforest yn rheolaidd.

### 3. LLYWODRAETHU A MONITRO

#### 3.1 Pwyllgor Adnoddau Dynol

Mae'n ddyletswydd ar y Pwyllgor Adnoddau Dynol gynghori Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol De Cymru ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a derbyn adroddiadau cyson ar gydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Cadeirir y Pwyllgor gan Ddirprwy Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol De Cymru.

#### 3.2 Grwp Llywio'r Iaith Gymraeg

Mae gan y Brifysgol Grŵp Llywio'r Gymraeg a gadeirir gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae gan y Grŵp rôl benodol i ddatblygu a gwella defnydd y Brifysgol o'r Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu Safonau'r Gymraeg a monitro cydymffurfiaeth yn erbyn y Safonau. Mae'r Grŵp yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac yn cynnwys uwch swyddogion a chynrychiolwyr ar draws y Brifysgol.

#### 3.3 Cydlynwyr y Gymraeg

Mae gan bob cyfadran academaidd ac adran gorfforaethol ym Mhrifysgol De Cymru Gydlynwyr y Gymraeg sy'n cynorthwyo ac yn delio gyda chwestiynau sy'n ymwneud â'r Safonau. Gallant gynghori ar faterion sy'n gysylltiedig â darpariaeth academaidd, gwasanaethau i fyfyrwyr, a sut mae delio gydag aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno cael gwasaneth Gymraeg.

Cynhaliwyd cyfarfodydd misol yn ystod y cyfnod adrodd i drafod gweithredu, monitro a chydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Yn ystod y cyfarfodydd, ceir cyfle i'r cydlynwyr drafod arfer dda yn eu meysydd hwy wrth weithredu'r safonau; gofyn am gyngor gan y cydlynwyr neu swyddogion yr Uned Gymraeg; a chynnig sut y gellid codi ymwybyddiaeth o'r gofynion a buddiannau'r safonau.

Mae pob cydlynwyr yn darparu adroddiadau llafar ac ysgrifenedig i Is-Ysgrifennydd y Brifysgol a Phennaeth y Gymraeg, sy'n gyfrifol am weithredu'r safonau a monitro cydymffurfiaeth.

### 3.4 Monitro

Fel y cytunwyd gan Grwp Llywio'r Gymraeg a Chydlynwyr y Gymraeg, ymgymrir â'r gwaith monitro'n fewnol gan yr Uned Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddulliau siopwr cudd (ymweliadau, galwadau ffôn a negeseuon e-bost) gyda'r amcan o adnabod arfer dda a'r meysydd sydd angen cefnogaeth neu hyfforddiant ychwanegol. Gwneir y gwaith hwn unwaith y flwyddyn gan yr Uned Gymraeg ac adroddir y canlyniadau a'r allbynnau i'r cydlynwyr a'r rheolwyr a'r penaethiaid perthnasol. Gofynnir i'r adrannau gyflwyno diweddariad blynyddol i'r Uned Gymraeg ar eu cynlluniau datblygu lleol er mwyn monitro datblygiad. Y cydlynwyr sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth yn eu meysydd hwy yn y cyfamser.

Mae Adroddiad Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn darparu safbwynt anibynnol, yn seiliedig ar eu harchwiliadau nhw, er mwyn hysbysu siaradwyr Cymraeg i ba raddau mae sefydliadau yn darparu gwasanaethau iddynt, ac ansawdd y gwasanaethau hynny; gan dynnu sylw sefydliadau at enghreifftiau o arfer dda, a lle bo angen datblygu trefniadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwella profiad y cwsmer. Gellir dod o hyd i gopi o adroddiad 2017-18 'Mesur o Lwyddiant' [yma](#).

## 4. CYDYMFFURFIO

### 4.1. Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau

Mae nifer o adnoddau a chanllawiau wedi'u darparu i staff PDC ar fewnrwyd y brifysgol, 'Yr Hwb', ac mae dolen gyflym wedi'i rhoi ar bob cyfrifiadur ar draws y brifysgol er mwyn gallu gweld y polisiau, gweithdrefnau a'r dogfennau hwyluso'n syth (gweler ffigwr 1 isod).

Crëwyd cynllun cyfathrebu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion. Cafodd negeseuon allweddol eu cylchredeg yn amserol ar y fewnrwyd; yng nghylchlythyr misol PDC; ac ar sgriniau arddangos ar draws y Brifysgol. Bu'r Uned Gymraeg hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd tîm gydag uwch-reolwyr yr adrannau a'r cyfadrannau a diwrnodau datblygu staff i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion ac ymateb i unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Roedd staff hefyd yn gallu cyflwyno cwestiynau'n ddi-enw ar y fewnrwyd a chasglwyd yr ymatebion a'u cyhoeddi ar y dudalen 'Dweud eich Dweud / *Have Your Say*' ar y fewnrwyd. Crëwyd tudalen ar safle'r Uned Gymraeg dan y pennawd 'Safonau'r Gymraeg' gyda rhestr o gwestiynau cyffredin ac ymatebion.

Mae [Cynllun Gweithredu'r Safonau](#) yn trafod sut mae Prifysgol De Cymru yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau, ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Brifysgol.

**Ffigwr 1: Mae'r eicon (a welir yng nghanol y sgrîn) ar gael ar bob cyfrifiadur y Brifysgol**



Ffigwr 2: Enghraifft o'r adnoddau sydd ar gael i staff ar fewnwyd PDC

## Translation | Cyfieithu

Watch Favourite Print PDF

Published: 23/01/2018 Last Updated: 18/01/2019

Procedures are in place for translating materials / documents from English to Welsh, or Welsh to English, and these procedures apply to staff on all University of South Wales campuses.

### How to book a Translator or Simultaneous Translator

1. Please read the [USW Translation Procedures](#). These guidelines contain details of the commodity and nominal codes to be used on TechOne and also guidance on checking the cost of translating documents which contain under 1,000 words.
2. All [external translators](#) and [simultaneous translators](#) are registered as University suppliers.

Please remember to allow enough time for translations.

### Sut i archebu Cyfieithydd neu Gyfieithydd ar y pryd

1. Darllenwch y ddogfen [Trefniadau Cyfieithu Prifysgol De Cymru](#) os gwelwch yn dda. Mae'r canllawiau yn cynnwys manylion y codau nwyddau (commodity) ac enwol (nominal) y dylid eu defnyddio ar TechOne a hefyd canllawiau ar wirio pris cyfieithu dogfennau sy'n cynnwys llai na 1,000 o eiriau.
2. Mae'r holl [gyfieithwyr](#) a [chyfieithwyr ar y pryd](#) wedi cofrestru fel darparwyr i'r Brifysgol.

Cofiwch adael digon o amser ar gyfer trefnu cyfieithiad.

### Proofreading

Proofreading documents is an essential part of the production process. Very often, things can go wrong during the design and print process, so sending the final proof to be checked is an essential part of the work.



#### 4.2. Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi, gweithredol)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion swyddogol yn ymwneud â'r Gymraeg na'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r polisi cwynion a'r broses ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r polisi wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r Gymraeg a chaiff ei adolygu yn unol â'r prosesau mewnol.

#### 4.3 Sgiliau Cymraeg cyflogeion

##### SAFON 158 : NIFER A % Y STAFF ACADEMAIDD SY'N GALLU ADDYSGU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG FESUL CYFADRAN

CYFADRAN	NIFER	%
GWYDDORAU BYWYD AC ADDYSG	31	5.89
DIWYDIANNAU CREADIGOL	36	10.71
BUSNES A CHYMDEITHAS*	90	26.79
CYFRIFIADUREG, PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH	11	3.12
<b>CYFANSWM</b>	<b>168</b>	<b>10.83</b>

\*Leolir darpariaeth Cymraeg i Oedolion y Brifysgol yn y Gyfadran Busnes a Chymdeithas.

**Safon 158 : Nifer a % y staff gweinyddol sy'n gallu siarad Cymraeg fesul adran**

<b>ADRAN</b>	<b>SIARADWR CYMRAEG (RHUGL)</b>	<b>SIARADWR CYMRAEG (DDIM YN RHUGL)</b>	<b>CANRAN FRAS O SIARADWYR CYMRAEG (O'R CYFANSWM O HOLL STAFF)*</b>
<b>COFRESTRFA ACADEMAIDD</b>	4	15	8%
<b>GWASANAETHAU CAMPWS A MYFYRWYR</b>	19	18	10%
<b>Y GYFARWYDDIAETH</b>	1	2	11%
<b>GWASANAETHAU CYLLID AC ISADEILEDD</b>	12	10	11%
<b>LLYWODRAETHU, SICRWYDD A CHYFREITHIOL</b>	6	4	67%
<b>MARCHNATA A DENU MYFYRWYR</b>	7	9	21%
<b>DATBLYGU SEFYDLIADOL</b>	2	9	18%
<b>YMCHWIL A DATBLYGIAD BUSNES</b>	1	5	14%
<b>PDC RHYNGWLADOL</b>	1	1	5%
<b>CYFANSWM</b>	<b>53</b>	<b>73</b>	<b>12%</b>

\*Yn ystod y cyfnod hwn, cyfunwyd dau system adrodd i ddarparu'r data. Mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg ym mhob adran yn gywir, fodd bynnag mae'r cyfanswm staff yn ffigwr bras oherwydd cymhlethdodau wrth gyfuno'r adroddiadau a cheisio adnabod pa staff a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd 3 mis.

Mae'r system ddata newydd yn darparu dadansoddiad manwl o sgiliau staff mewn cyd-destunau gwahanol (darllen, ysgrifennu a siarad) sy'n rhoi darlun gwell i'r Brifysgol o'r sgiliau amrywiol ar draws yr adrannau a'r cyfadrannau.

#### 4.4 Nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant Cymraeg

Mynychodd 105 aelod o staff (4%) hyfforddiant yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18 i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg.

#### 4.5 Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn neu llyn gwddf 'laith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Dosbarthir llinynnau gwddf 'laith gwaith' i unrhyw staff sydd wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl a gellir gofyn amdanynt drwy'r cydlynwyr neu'r Uned Gymraeg. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol ac mae staff wedi sôn yn anffurfiol fod y bathodynau wedi rhoi hyder iddynt ddechrau sgysiau yn Gymraeg. Mae rhai aelodau o staff wedi dechrau cynnig gwasanaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar ôl magu hyder a datblygu'u sgiliau.

Mae'r galw am llinynnau gwddf i ddysgwyr wedi cynyddu yn ddiweddar. Mae staff, sydd heb yr hyder i wisgo llynyn laith Gwaith eto, wedi nodi eu bod yn fwy cyfforddus yn gwisgo bathodyn neu llyn 'Dysgu Cymraeg'. Mae'r llinynnau gwddf 'Dysgu Cymraeg' wedi'u hariannu gan yr Uned Gymraeg, mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg Morgannwg.

Dosbarthwyd 41 bathodyn a 46 llynyn gwddf yn ystod 2018.

#### 4.6 Swyddi newydd a gwag

<b>Nifer y swyddi gweinyddol a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol, a chanran y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg</b>	
<b>Nifer</b>	<b>% y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg</b>
104	65.52

## 5. GWYBODAETH BELLACH

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adroddiad monitro neu am unrhyw agwedd ar gydymffurfiaeth Prifysgol De Cymru gyda Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â:

Yr Uned Gymraeg  
Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol,  
Prifysgol De Cymru  
Campws Pontypridd  
CF37 1DL

[cymraeg@decymru.ac.uk](mailto:cymraeg@decymru.ac.uk)